Bwrdd Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Dydd Mercher, 11 Mai 2016
Ysgol Reoli, Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Yn bresennol:

Aelodau (Coleg): Dr Hefin Jones (Cadeirydd a Deon), Yr Athro Siwan Davies, Dr Dylan Foster Evans, Dr Mererid Hopwood, Yr Athro Carwyn Jones, Yr Athro Elin Haf Gruffydd Jones, Yr Athro Densil Morgan, Delyth Murphy, Yr Athro Eleri Pryse, Gwerfyl Roberts, Llŷr Roberts, Yr Athro Deri Tomos

Aelodau (Sefydliad): Dr Gwenno Ffrancon, Gwawr Jones, Andrew Parry, Dr Elin Royles, Yr Athro Enlli Thomas, Daniel Tiplady, Dr Catrin Haf Williams, Gaynor Williams

Aelodau (Myfyrwyr): Rhydian Birkinshaw, Jacob Ellis (prynhawn yn unig)

Aelodau (Colegau Cymru): Bethan Davies, Llinos Roberts

Grŵp Ymgynghorol: David Lloyd

Swyddogion: Dr Ioan Matthews (Prif Weithredwr), Dr Dylan Phillips (Uwch Reolwr Academaidd), Dr Gwennan Schiavone (Uwch Reolwr Academaidd), Dr Dafydd Trystan (Cofrestrydd), Nia Brown (Swyddog Datblygu: Ysgrifenyddiaeth)

Ymddiheuriadau: Julie Brake, Dr Myfanwy Davies, Fflur Elin, Poppy Evans, Catrin Howells, Gwilym Dyfri Jones, Dr Llion Jones, Mari Elin Jones, Gwyndaf Lewis, Dr Lisa Lewis, Llinos Roberts, Carys Swain, Aled Thomas, Linda Wyn

Eitem	**Prif bwyntiau trafod**	**Pwyntiau Gweithredu**	**Cyfnod amser**
1. Croeso a Sylwadau Agoriadol	1.1. Croesawyd yr aelodau'n ffurfiol i'r cyfarfod gan y Deon. 1.2. Diolchwyd i Brifysgol Metropolitan Caerdydd am y croeso ac am letya'r cyfarfod. 1.3. Cafwyd munud o dawelwch, er cof am yr Athro Gwyn Thomas, academydd a llenor o'r radd flaenaf, ac un o Gymrodyr er Anrhydedd y Coleg. 1.4. Estynnwyd croeso i aelodau Grŵp Ymgynghorol y Coleg, a fydd yn mynychu'r cyfarfodydd nesaf er mwyn iddynt		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	gyfrannu at y drafodaeth ar y cynllun academaidd newydd. 1.5. Croesawyd Bethan Davies, Hyrwyddwr y Gymraeg a dwyieithrwydd Coleg Dewi Sant Caerdydd (ar ran Carys Swain). Adroddwyd, yn absenoldeb Carys, bod Coleg Pen-y-bont yn cynnal sesiwn modiwl lefel 4 cyfrwng Cymraeg Entrepreneuriaeth ar yr un dydd gan Carys Hughes (Prifysgol De Cymru). 1.6. Nodwyd llongyfarchiadau i gynrychiolwyr myfyrwyr y Bwrdd Academaidd, Fflur Elin, Llywydd newydd Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru, a Siôn Davies sydd wedi ei ethol i Bwyllgor Gwaith Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Prydain.		
2. Ymddiheuriadau a datganiadau o ddiddordeb	2.1. Nodwyd ymddiheuriadau fel uchod. 2.2. Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb i'w nodi:		
3. Cyflwyniad gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd	3.1. Cafwyd cyflwyniad gan Daniel Tiplady ar ddarpariaeth y Gymraeg ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd.		
4. Diweddariad gan y swyddogion	4.1. Cafwyd diweddariad gan y Prif Weithredwr ar sefyllfa gyfredol y Coleg. Yn dilyn yr etholiad diweddar, disgwylir y daw'n fwy eglur dros yr wythnosau nesaf beth fydd yr amserlen ar gyfer ystyried argymhellion Adolygiad Diamond a phennu cyllidebau ar gyfer y cyfnod o 2017/18 ymlaen. 4.2. Cafwyd diweddariad ar y Cynllun Staffio lle adroddwyd bod cyfuniad o ddatrysiadau parhaol a thymor byr mewn lle ar gyfer swyddi academaidd sydd yn dod i ddiwedd eu pumed flwyddyn eleni. Nodwyd bod y Bwrdd Cyfarwyddwyr wedi penderfynu ar broses o fonitro'r ddarpariaeth. 4.3. Adroddwyd bod Owain Huw, Rheolwr Gwasanaethau		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	Gwybodaeth y Coleg yn gadael ei swydd. Cyflwynwyd diolch iddo am ei gyfraniad i waith y Coleg yn ystod ei gyfnod o wyth mlynedd a hanner ar y staff.		
5. Ymatebion i'r Cynllun Academaidd newydd	5.1. Derbyniwyd cyflwyniad yn crynhoi ymatebion i gwestiynau ynghylch y cynllun academaidd newydd gan y Cofrestrydd. Amlinellwyd y broses gan ddechrau gyda'r drafodaeth gychwynnol a gafwyd yn y Bwrdd Academaidd ar 3 Chwefror 2016. Diolchwyd am yr ymatebion i'r cylchlythyr a dderbyniwyd gan brifysgolion Aberystwyth, Bangor, y Drindod Dewi Sant, De Cymru a Glyndŵr, Colegau Addysg Bellach, Paneli Pwnc a Sel Williams. 5.2. Nodwyd bod y cyd-destun polisi yn cynnwys ansicrwydd ynghylch cyfeiriad polisi Llywodraeth Cymru a bod nifer o ystyriaethau yn amodol ar ymateb y llywodraeth i adolygiadau Diamond a Hazelkorn a thrafodaethau ynghylch perthynas y Coleg gyda'r sector addysg bellach. Felly, bydd y gwaith cynllunio, am y tro, yn cymryd y fframwaith presennol fel sail i drafodaethau ond yn cadw hyblygrwydd er mwyn ymateb i ddatblygiadau. 5.3. Yn ystod y cyflwyniad, nodwyd y themâu canlynol: Cydweithio; Llwyfannau Adnoddau Addysgiadol; Perthynas gyda chyflogwyr; Cyfranogiad Myfyrwyr; Cynaliadwyedd y Ddarpariaeth; Patrymau Buddsoddi Pynciol; Meincnodau; Rôl y Paneli Pwnc; Dilyniant. 5.4. Yn dilyn y cyflwyniad cafwyd trafodaeth gynhwysfawr a nodwyd nifer fawr o awgrymiadau i'w hystyried wrth baratoi drafft cyntaf o'r cynllun newydd. 5.5. Cytunwyd y byddai adroddiad cynnydd yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 22 Mehefin ac y byddai trafodaeth ar ddrafft cyntaf y Cynllun Academaidd yn y cyfarfod arbennig o'r Bwrdd Academaidd ar 20 Gorffennaf.	Drafft cyntaf o'r cynllun i'r Bwrdd Academaidd	20 Gorffennaf 2016

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
6. Taith: Ysgol Celf a Dylunio	6.1. Cafwyd taith o amgylch yr Ysgol Celf a Dylunio gyda'i Deon, yr Athro Olwen Moseley a Huw Williams. Diolchwyd iddynt am dywys yr aelodau o amgylch arddangosfa o waith y myfyrwyr.		
7. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Chwefror 2016	7.1. Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod blaenorol fel cofnod cywir.		
8. Materion academaidd **CYFRINACHOL**	8.1. Cyflwynwyd adroddiad ar adolygiad pynciol Chwaraeon gan y Cofrestrydd. Diolchwyd i'r Athro Carwyn Jones, Gaynor Williams a'r Athro Marc Jones, Prifysgol Staffordshire am adolygu'r cynllun Chwaraeon a chyflwyno argymhellion ar gyfer y dyfodol. Cymeradwywyd yr argymhellion a gyflwynwyd yn yr adolygiad. 8.2. Cafwyd adroddiad llafar ar adolygiad pynciol Diwydiannau Creadigol gan Dr Gwennan Schiavone. Diolchwyd i Dylan Iorwerth a Dr Glenda Jones am adolygu'r cynllun Diwydiannau Creadigol a chyflwyno argymhellion ar gyfer y dyfodol. Nodwyd cyfrinachedd argymhellion yr adolygiad. Cytunwyd yr ystyrir yr argymhellion yn llawn yng nghyd-destun y cynllun academaidd newydd.	Ail-gyflwyno'r adolygiad i'r BA yng nghyd-destun y cynllun academaidd newydd	2016/17
9. Papur trafod y myfyrwyr	9.1. Cyflwynwyd papur trafod y myfyrwyr ar ddeunyddiau astudio priodol gan Rhydian Birkinshaw yn absenoldeb Poppy Evans. 9.2. Eglurwyd bod cyhoeddiadau i'w canfod yn Llyfrgell Adnoddau'r Coleg a'r Porth. Trafodwyd codi ymwybyddiaeth o'r deunyddiau ymysg y gynulleidfa targed yn ogystal â hyrwyddo a marchnata. Nodwyd bod detholion o lyfrau yn hytrach na chyfieithiadau o werslyfrau ar y gweill yn ogystal. Trafodwyd pwysigrwydd hyrwyddo trawsieithu hefyd.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	9.3. Diolchwyd i Rhydian am gyflwyno'r papur a chyfeiriwyd at ei ymdrechion yn hybu'r Gymraeg ac anghenion dysgu ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd. 9.4. Nododd Jacob Ellis bod Ifan James wedi ei ethol yn Swyddog Iaith Gymraeg UCMC. Nodwyd mai dyma fyddai cyfarfod olaf Jacob a diolchwyd iddo am ei gyfraniad wrth sefydlu cynrychiolaeth myfyrwyr y Coleg.		
10. Pwyllgor Cydweithio Academaidd	10.1. Nodwyd cofnodion drafft 20 Ebrill 2016, er gwybodaeth. 10.2. Cafwyd diweddariad gan y Prif Weithredwr ar drafodaethau'r pwyllgor ar gyfoethogi profiad y myfyriwr. Bydd Huw Morris (Cadeirydd), David Lloyd a Denise Williams yn cyfrannu at y cynllun academaidd yng nghyd-destun cydweithio.		
11. Strategaeth Ymchwil	11.1 Nodwyd cofnodion drafft y Grŵp Ymchwil a Chyhoeddi, 10 Mawrth 2016, er gwybodaeth. 11.2 Awgrymwyd y dylid cywiro rhai gwallau a newid geiriad cofnod 4.1	NB i gysylltu â MFf ynghylch cywiriadau	Mai 2016
12. Ehangu mynediad a chyfranogiad	12.1. Nodwyd cofnodion y Pwyllgor Ehangu Mynediad, 23 Chwefror 2016, er gwybodaeth. 12.2. Awgrymwyd y dylid gwahodd aelodau pellach i gynrychioli'r Bwrdd Academaidd ar y Pwyllgor Ehangu Mynediad ynghyd â Delyth Murphy, Cadeirydd y pwyllgor a'r aelod myfyrwyr.	IM i gysylltu â DM	Mai 2016
13. Materion yn codi	13.1 <u>Eitem 8.4: Tystysgrif Sgiliau Iaith</u> Nodwyd bod 250 o fyfyrwyr wedi sefyll yr arholiad TSI ar 27 Ebrill 2016. Adroddwyd bod y cytundeb rhwng y Coleg a Chyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC) i achredu'r dystysgrif wedi ei gadarnhau mewn egwyddor ac mae'r manylion yn cael eu cytuno ar hyn o bryd.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	13.2 <u>Eitem 14.2: Prifysgol Glyndŵr</u> Nodwyd bod cangen wedi ei sefydlu ym Mhrifysgol Glyndŵr gyda pherthynas ffurfiol â Choleg Cambria. Diolchwyd i Andrew Parry a Llinos Roberts am eu hymwneud â hyn.		
14. UFA	14.1. Nodwyd, er gwybodaeth, bod enwebiadau ar gyfer Gwobr Merêd dan ystyriaeth ac y dyfernir Gwobr Goffa Dr John Davies yn Eisteddfod Genedlaethol y Fenni fis Awst. 14.2. Diolchodd y Deon i Gadeiryddion y canghennau am amserlenni ei deithiau blynyddol. Estynnodd ei werthfawrogiad o ŵyl MAP a chynadleddau Chwaraeon a Gwyddonol na fyddai'n digwydd oni bai am gefnogaeth y Coleg.		
15. Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf	15.1. Estynnwyd apêl i'r aelodau i fynychu'r cyfarfod ychwanegol nesaf i drafod y cynllun academaidd newydd ar 20 Gorffennaf 2016 ym Mhrifysgol Caerdydd. 15.2. Nodwyd dyddiadau'r cyfarfodydd ar gyfer y flwyddyn academaidd 2016/17: • 13 Hydref 2016, Prifysgol De Cymru • 8 Chwefror 2017, Caerfyrddin • 10 Mai 2017, Prifysgol Aberystwyth		